CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **1 Hydref 2024**

Teitl: **Canolfan Lles, Aberteifi**

Pwrpas yr Adroddiad: **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 17eg o Fedi 2024 a'r 27ain o Fedi 2024**

Cefndir:
Ar y 5ed o Ragfyr 2022 cytunodd y Cabinet y byddai ail Ganolfan Lles y sir yn cael ei lleoli yn Aberteifi i wasanaethu de'r sir.

Rhoddwyd caniatâd i'r swyddogion werthuso'r dewisiadau i nodi lleoliadau posib ar gyfer y Ganolfan Lles a'r cyfleusterau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau arfaethedig.

Cafwyd cyllid ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o Raglen Gyfalaf ehangach Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r Canolfannau Lles wedi'u cynnwys fel rhan o Flaenoriaethau Cyfalaf rhaglen Llesiant Gydol Oes y Cyngor a gyflwynwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Penodwyd Alliance Leisure i ymgymryd â'r Astudiaeth Ddichonoldeb ac fe'u cefnogwyd gan Benseiri Roberts Limbrick a hefyd Strategic Leisure.

Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

a) Cynnal arfarniad RIBA o'r opsiynau o ran safleoedd i benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y Ganolfan Lles newydd
b) Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb busnes ar gyfer y Ganolfan Lles newydd
c) Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid
d) Darparu costau Cyfalaf dangosol, lefel uchel, yn seiliedig ar Arwynebedd Llawr Mewnol Gros (GIFA) y cyfleusterau sy'n bosib ar y safleoedd a nodwyd.

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar werthusiadau'r safleoedd ac mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r ymgysylltu a wnaed â'r cyhoedd a rhanddeiliaid hyd yn hyn.

Argymhellion:
Yn dilyn trafodaeth hir, Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai ymweliad â'r safle arfaethedig a'r ganolfan hamdden bresennol o fudd cyn cyflwyno argymhelliad i'r Cabinet.

Cynhaliwyd ymweliad ar 24 Medi 2024. Yn dilyn cyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 27 Medi 2024 i drafod canfyddiadau'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2024, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell y canlynol i'r Cabinet:

1. Mai safle Pwll Coffa Aberteifi/ Maes Parcio Cae Ffair yw'r un a ffafrir ar gyfer datblygu'r Ganolfan Lles, yn seiliedig ar opsiwn B yn yr astudiaeth ddichonoldeb; yn amodol ar leihau ôl troed y ganolfan er mwyn peidio â cholli cymaint o fannau parcio.
2. Mai adeiladu o'r newydd ar safle Pwll Coffa Aberteifi/ Maes Parcio Cae Ffair yw'r opsiwn a ffafrir.

Rheswm am yr argymhellion:
Galluogi'r swyddogion i ddatblygu'r Model Pum Achos ar gyfer Canolfan Lles Aberteifi, fel bod modd gwneud cais i dîm Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Llywodraeth Cymru.

Y Cynghorydd Amanda Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach